# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 24 Tachwedd 2003

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**David Davies (Mynwy);** A all hi restru'r holl gyflenwyr y mae ELWa wedi talu gormod iddynt ac wedi gofyn am ad-daliad ganddynt? (WAQ30096)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**David Davies (Mynwy);** Pa adroddiadau y mae AWEMA wedi'u cyflwyno i'r adran Datblygu Economaidd ac a allaf i gael copïau ohonynt. (WAQ30097)

**David Davies (Mynwy);** Pa wasanaethau y mae AWEMA wedi'u darparu i adran Datblygu Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ30098)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**David Melding (Canol De Cymru);** Beth yw'r bwlch amser, ar gyfartaledd, rhwng cynnal arolygiad gan ASGC a chyhoeddi'r adroddiad. (WAQ30099)

**David Melding (Canol De Cymru);** A roddir canllawiau i awdurdodau lleol neu asiantaethau perthnasol eraill sy'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu cymhedrol a difrifol ynghylch y maint mwyaf sy'n dderbyniol ar gyfer unedau preswyl. (WAQ30100)

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y polisi cyfredol ynghylch comisiynu llety ar gyfer pobl sydd ag awtistiaeth cymhedrol a difrifol, a beth yw'r maint mwyaf yr ystyrir ei fod yn dderbyniol ar gyfer cyfleusterau preswyl. (WAQ30101)

**David Melding (Canol De Cymru);** Pa asiantaeth sy'n gyfrifol am reoleiddio Bryn y Neuadd yn Llanfairfechan. (WAQ30102)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw ganllawiau sydd wedi'u rhoi ar saethu hwyaid coch yng Nghymru. (WAQ30107)

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Pa gorff sy'n gyfrifol am y rhaglen ar gyfer rheoli hwyaid coch yng Nghymru. (WAQ30106)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Leighton Andrews (Rhondda);** A yw'r Gweinidog wedi ystyried datblygu Cynllun Is-adrannol ar gyfer Rheoli Asedau cymunedol yng Nghymru ac a wnaiff hi ddatganiad. (WAQ30105)

**Leighton Andrews (Rhondda);** A yw'r Gweinidog wedi derbyn sylwadau ynghylch creu Cronfa Ddatblygu ar gyfer Cymru wedi'i seilio ar Asedau neu Gronfa Cyfalaf Menter, ac a wnaiff hi ddatganiad. (WAQ30104)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Pa ardaloedd sydd wedi'u nodi yn gymdogaethau i'w hail-ddatblygu o dan Rhondda Cynon Taf. (WAQ30108)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Gwasanethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol*

**Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pa ganllawiau y mae wedi'u rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru ar drosglwyddo asedau megis adeiladau i grwpiau cymunedol am bris sy'n is na gwerth y farchnad. (WAQ30103)